PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 28 GORFFENNAF 2020

Present: Aelodau Annibynnol: David Hugh Thomas (Cadeirydd)
David Price
Y Cynghorwyr Cunnah, Howells, Lister, McKerlich a/ac Williams

1 : PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD

PENDERFYNWYD – bod D. Hugh Thomas yn cael ei benodi'n Gadeirydd a bod Gavin McArthur yn cael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd.

Nodyn - ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig, er mwyn rhagweld unrhyw weithgareddau technegol posibl penodwyd David Price yn Ddirprwy Gadeirydd

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Goodway a Simmons, a chan Gavin McArthur.

Nododd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Goodway yn gallu mynychu'r cyfarfod ond ei fod am gynnig croeso cynnes iddo fel aelod newydd o'r Pwyllgor Archwilio.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 5.1 | Perchennog eiddo yn Heol y Porth sydd wedi'i chynnwys mewn mesurau gwella ansawdd aer |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 6 | Cyflogir gan BCB International. Mae BCB International yn cyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r Cyngor a'i bartneriaid. |

4 : COFNODION

*Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn yr eitem hon fel perchennog eiddo yn Heol y Porth sydd wedi'i chynnwys mewn mesurau gwella ansawdd aer.*

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

1. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd ar fonitro deunydd gronynnol i gael ei ddosbarthu ac Aelodau i ystyried a oes angen unrhyw wybodaeth bellach.

5 : ARCHWILIO MEWNOL

6 : ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Rhoddodd Chris Pyke (Rheolwr Archwilio) amlinelliad i'r Aelodau o Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2019/20, gan nodi ei fod yn ddisgrifiad o’r flwyddyn ariannol ddiwethaf; roedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a’r ffaith bod yr adroddiad blynyddol wedi'i atodi yn Atodiad A. Roedd adran 1 a 2 yn rhoi'r cefndir, adolygiad a barn yr archwiliad mewnol; Roedd adran 3 yn ymwneud â pherfformiad gwaith ac adran 4 yn ymwneud â Sicrwydd Ansawdd a Gwelliannau.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw drefniadau arbennig ar waith ar gyfer archwilio mewnol oherwydd Covid-19. Esboniodd y Rheolwr Archwilio fod dechrau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar ran olaf y flwyddyn ariannol; gan edrych y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2019/20, mae risgiau sylweddol pellach o ystyried yr amgylchedd gwahanol iawn rydym yn gweithredu ynddo. Yn y chwarter ariannol cyntaf, cymhwysodd adnoddau archwilio nifer o'r 100 diwrnod archwilio a ddyrannwyd i ymgynghoriaeth a chyngor cysylltiedig â Covid-19 er mwyn adolygu gwydnwch a rheolaethau mewn meysydd allweddol, wrth i'r rheolwyr addasu i'r argyfwng. Bydd Covid-19 yn effeithio ar yr hyn a edrychir arno yn y Cynllun Archwilio, gyda rhai meysydd newydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, a rhai meysydd a gynlluniwyd yr effeithiwyd arnynt yn ddi-os gan Covid-19, megis archwilio trefniadau Llywodraethu a Rheoli Digwyddiadau a Pharhad Busnes. Mae Covid-19 wedi effeithio ar yr incwm a gafwyd, a sut rydym yn caffael, ac mae angen canolbwyntio ar y presennol drwy archwiliadau parhaus yn y meysydd hyn, yn ogystal â rhoi sicrwydd ar weinyddu Grantiau Busnes yn ddiweddar ar ran Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd Aelod at y gwaith meincnodi gyda dinasoedd craidd a'r costau/diwrnodau cynhyrchiol ac anghynhyrchiol nad oedd yn ymddangos yn gymhariaeth deg. Cytunodd y Rheolwr Archwilio i gadarnhau gwerth meincnodi taladwy cymharol y dinasoedd craidd, ac i gywiro hynny yn achos camgymeriad teipio.

Cytunwyd bod y Pwyllgor Archwilio yn cael sesiwn friffio gyfrinachol mewn perthynas â 'thipio anghyfreithlon'.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

1. Y Rheolwr Archwilio i gadarnhau gwerth meincnodi taladwy cymharol y dinasoedd craidd, ac i gywiro hynny yn achos camgymeriad teipio.
2. Pwyllgor Archwilio i gael sesiwn friffio gyfrinachol mewn perthynas â 'thipio anghyfreithlon'.

7 : SIARTR A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio drosolwg i'r Aelodau o'r Siarter a’r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21. Amlinellwyd crynodeb o'r adroddiad a thynnwyd sylw'r Aelodau at yr addasiadau a nodwyd ym mharagraff 11. Nodwyd nad oedd yr Archwilwyr yn gweithio ar eu capasiti arferol a bydd lefel gyffredinol y cynllun y gellir ei gyflawni yn is na blynyddoedd blaenorol, yn bennaf ar lefel gwasanaeth. Rhoddir

blaenoriaeth i gwblhau archwiliadau system sylfaenol, archwiliadau llywodraethu ac archwiliadau sicrwydd eraill, ac astudiaethau thematig allweddol.

PENDERFYNWYD:

I. Cymeradwyo’r Siarter Archwilio Mewnol a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2020/21
II. Cymeradwyo Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21

8 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD 2020/21

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio ddiweddariad i'r Aelodau am Gynnydd y Tîm Archwilio ac Ymchwilio yn 2020/21. Amlinellwyd crynodeb o'r adroddiad gan roi sylw arbennig i oedi, effeithiau ac adnoddau a’r ffaith y byddai Dangosyddion Perfformiad yn cael eu hailosod ar y sail honno.

Gofynnodd Aelod a ddylent fod yn bryderus ynghylch faint o archwiliadau ac argymhellion anfoddhaol a fu mewn perthynas â Rheoli Gwastraff. Cytunodd y Rheolwr Archwilio y bu sicrwydd lefel is yn y gwasanaeth hwn, ac amgylchedd rheoli cymharol wannach yn y maes hwnnw. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi bod yn glir yn eu presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio bod angen gwelliannau parhaus, a dywedodd y Rheolwr Archwilio fod sgyrsiau gyda'r rheolwyr yn agored ac yn effeithiol. Roedd yr adran yn cael ei hystyried yn amlach, mewn cytundeb ag uwch reolwyr, o ystyried yr angen parhaus am sicrwydd yn yr adran hon. Atgoffwyd yr Aelodau bod trefn ddilynol ar gyfer unrhyw safbwyntiau anfoddhaol. Mae'r rheolwyr wedi bod yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion, ond bydd angen gweld y gwelliannau angenrheidiol drwy'r adolygiad dilynol.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

9 : CYLLID

10 : DIWEDDARIAD AR GYLLID (GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH)

*Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn cael ei gyflogi gan BCB International. Mae BCB International yn cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i'r Cyngor a'i bartneriaid.*

Rhoddodd Chris Lee ddiweddariad ariannol llafar i'r Aelodau gyda throsolwg byr o ran Covid-19. Atgoffwyd yr Aelodau fod adroddiad y Cabinet ar 11 Mehefin yn nodi ymateb y Cyngor i'r pandemig. Roedd y chwarter cyntaf wedi cynnwys penderfyniadau brys yn cael eu gwneud dan ddirprwyaethau cyffredinol ac roedd mecanweithiau ariannu i hawlio arian yn ôl. Nodwyd na fyddai arian Covid-19 yn parhau am byth ac na ellir rhagdybio y bydd ar gael wrth fynd ymlaen felly byddai angen craffu'n agos arno.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa o ran hawlio gwariant ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â Covid, ac ar ddiwedd y chwarter cyntaf roedd y gwariant tua £22.5 miliwn a oedd yn cynnwys Cyfarpar Diogelu Personol, Prydau Ysgol Am Ddim,

Cymorth i Ddarparwyr Gofal, sy'n golygu cryn dipyn o dynnu i lawr gan Lywodraeth Cymru, byddai cyfanswm hyn yn cael ei adennill, roedd £9.5 miliwn wedi dod i law hyd yn hyn ac roedd cais pellach am fis Mehefin wedi'i gyflwyno ar 15 Gorffennaf ac arhosir am ymateb.

Cafwyd mesurau lliniaru fel rhoi staff ar ffyrlo. Fodd bynnag, roedd yn anorfod y collir incwm drwy ffynonellau fel Lleoliadau Diwylliannol, Arlwyo, Troseddau Parcio a Thraffig.
Cafwyd oedi hefyd o ran incwm megis pridiannau tir, ffioedd cynllunio ac incwm rhent a mynegwyd pryder bod angen monitro a rheoli'r meysydd hyn er mwyn sicrhau na fyddent yn colli incwm yn y tymor hwy. Roedd hawliadau am incwm a gollwyd wedi'u cyflwyno ar gyfer y cyfnod yn y pythefnos diwethaf.

Rhoddodd Chris Lee drosolwg ar sefyllfa Chwarter 2 a dywedodd fod gwaith dadansoddi'n parhau'n fewnol, roedd sawl her yn bodoli, megis cyfarpar POD, ailgychwyn ysgolion, arian Gofal Cymdeithasol a Chynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor a Budd-daliadau; ymhlith eraill. Gan symud ymlaen ac o safbwynt Archwilio, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar Ddatganiad Cyfrifon 2019/20 a fyddai'n nodi effaith Covid-19 ym mis Mawrth. Byddai'r Cabinet yn derbyn adroddiad yn yr Hydref yn diweddaru sefyllfa mis 4 a fyddai'n cynnwys gwariant, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru, arian Llywodraeth Cymru, rhagdybiaethau a diweddariad ar setlo (os yw'n hysbys).

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

11 : LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

12 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2019/20

Rhoddwyd trosolwg cryno i'r aelodau o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2019/20 a gwahoddwyd cwestiynau neu sylwadau.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 13 yr adroddiad a'r ffaith ei fod yn adlewyrchu pryderon y Pwyllgor Archwilio ynghylch camau gweithredu a pha mor gyflym y mae camau'n cael eu cymryd ar ganlyniadau archwilio gwael mewn ysgolion. Cyfeiriodd yr Aelodau at ddisgwyliadau'r Pwyllgor Archwilio o ran diweddariadau rheolaidd ar Lywodraethu Ysgolion. Nodwyd bod ysgolion dan fwy o bwysau ar hyn o bryd ond roedd yn bwysig peidio â cholli golwg ar y diffygion sylweddol a nodwyd ac a waethygwyd erbyn hyn gan Covid-19. Nid oedd yr Aelodau am aros yn rhy hir cyn cael adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Roedd y Cadeirydd yn rhannu'r un pryderon a nododd fod proses benodi yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer Cyfarwyddwr newydd, a fyddai'n ei swydd yn rhan olaf y flwyddyn. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r materion beth bynnag, o fewn cyfyngiadau'r newid mewn arweinyddiaeth, a phwysleisiodd ei fod am sefydlu perthynas adeiladol gyda'r Cyfarwyddwr newydd o'r cychwyn cyntaf.

Eglurodd y Rheolwr Archwilio y byddai angen i bob ysgol gwblhau hunanasesiad risg rheoli yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref, a fyddai'n cael ei ddilyn gan brofion archwilio. Mae angen caniatáu i ysgolion ailagor a gweithredu'n ddiogel cyn unrhyw ymgysylltiad archwilio uniongyrchol, ond byddai'r dull yn cael ei ystyried, ac efallai na

fydd staff archwilio'n gallu ymweld ag ysgolion yn gorfforol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd yr Aelodau'n fodlon ar y dull a amlinellwyd.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

1. Y Pwyllgor Archwilio i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes fel rhan o'i raglen waith.

## 13 : DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2019/20 (YN CYNNWYS DATGANIADAU SICRWYDD DIWEDD BLWYDDYN GAN UWCH REOLWYR)

Amlinellodd Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'r Aelodau. Tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 6 yn yr adroddiad sydd mewn perthynas â Covid-19 a pharagraffau 14-18 sydd mewn perthynas â Datganiad Uwch Reolwyr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y themâu cymysg ym mharagraff 8 a cheisiodd sicrwydd y gellid gwella pethau yn y dyfodol. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod rhai cwestiynau arholiad am sicrwydd wedi'u newid oherwydd amgylchedd Covid-19 a bu newidiadau o ran darparu gwasanaethau. Bwriedir gwneud newidiadau i'r cwestiynau sicrwydd a symud yn fwy hyderus yn yr hydref.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

## 14 : RHEOLI RISG GORFFORAETHOL (DIWEDD Y FLWYDDYN)

Amlinellodd Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) yr adroddiad ar Reoli Risg Corfforaethol (Diwedd y Flwyddyn) i'r Aelodau.
Nododd yr Aelodau y 216 o risgiau a nodwyd a bod 8 wedi’u huwchgyfeirio i'r uwch dîm rheoli fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ym mharagraff 9.
Nododd yr Aelodau hefyd fod y Gofrestr Risgiau bellach yn cynnwys adran gydgasgledig ar Risg Hinsawdd ac roedd papurau gwaith ar hyn ar gael i’r Aelodau.
Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r risgiau a nodwyd o ganlyniad i Covid-19 a'r rhai a luniwyd gan Covid-19, yn cael eu cynnwys yn y risgiau yn adroddiad Chwarter 1.
Nododd yr Aelodau fod gan y DU fwriad i adael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020 a bod gwaith yn parhau i sicrhau y câi unrhyw effeithiau ar Gaerdydd eu llywio'n briodol.
Gofynnodd Aelod a oedd yr holl adolygiadau Chwarter 1 wedi'u cwblhau a dywedodd y swyddogion eu bod wedi'u cwblhau a bod llawer o risgiau wedi'u nodi o ganlyniad i Covid-19.
Cyfeiriodd Aelod at y sefyllfa sy'n symud yn gyflym gyda'r pandemig a gofynnodd a ystyriwyd a oedd adroddiadau chwarterol yn briodol ar hyn o bryd. Esboniodd y swyddogion fod yr uwch dîm rheoli yn cwrdd yn wythnosol cyn y pandemig, ond ar ddechrau'r pandemig, gwnaeth gwrdd bob dydd, ac ar hyn o bryd mae’n cwrdd 3 gwaith yr wythnos. Trafodwyd / trafodir rheoli risgiau yn rheolaidd wrth i heriau godi â'r Cyfarwyddwyr ac mae cyfle i fynegi pryderon a risgiau yn y cyfarfodydd hynny. Dywedodd y swyddogion fod cyfarwyddiaethau yn llenwi eu cofrestrau risgiau yn rheolaidd. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd i adroddiad Chwarter 1 gynnwys rhagflas o'r egni a'r ymdrech, yr amlder a'r broses sydd eu hangen bellach. Roedd y

swyddogion o'r farn bod y Fethodoleg Risg a ddefnyddiwyd yn galluogi'r uwch dîm rheoli a gwasanaethau i ymateb i risgiau a'u holrhain yn briodol a gellir ymdrin â hyn yn yr adroddiad nesaf.

Roedd aelod o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol cael syniad o sut mae'r fframwaith wedi cefnogi'r uwch dîm rheoli o ran yr heriau ychwanegol hyn, a gofynnodd a yw'r swyddogion wedi ystyried newid y Gofrestr Risgiau i ddangos ffyrdd o wneud pethau'n well.  Eglurodd y swyddogion nad oedd COVID-19 yn risg ynddo'i hun ond yn fwy o amgylchedd lle mae'n rhaid i ni lywio risgiau o fewn iddo; gan ychwanegu bod y broses o reoli risg yn ymddangos yn fwy naturiol gan ei bod yn ymateb i effeithiau'r pandemig.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

15 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

16 : CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL

Amlinellodd Phil Pugh (Archwilio Cymru) y Cynllun Archwilio Blynyddol i'r Aelodau.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Archwilio'r Datganiadau Ariannol a'r risgiau allweddol a nodwyd yn ystod y cam cynllunio.

Cyfeiriwyd at bwyntiau allweddol drwy'r adroddiad a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod 1 achos posibl o wrthdaro buddiannau yn y Tîm Archwilio, sef y ffaith bod un o gyflogeion Cyngor Caerdydd yn gyfaill ac yn gyn-gydweithiwr i Phil Pugh; mae holl aelodau eraill y tîm yn annibynnol ac ystyriwyd bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau nad oedd unrhyw risg.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad ar y costau ar draws y tîm Archwilio ac roedd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys dadansoddiad o'r costau yn yr adroddiad bob blwyddyn.

PENDERFYNWYD:

I. Archwilio Cymru i lunio dadansoddiad o'r lefelau a'r costau staffio a gyllidebwyd sy'n ffurfio eu ffi archwilio ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Medi 2020 ac i hwn gael ei gynnwys yn adroddiad y Cynllun Archwilio Blynyddol yn y dyfodol.

II. Nodi'r adroddiad;

17 : CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN CAERDYDD A'R FRO

Amlinellodd Phil Pugh (SAC) Gynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro i'r Aelodau.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at yr eitemau allweddol a restrir ym mharagraff 10 yr adroddiad.  Trafododd yr Aelodau waith y Tîm Archwilio a'r Ffioedd fel y nodir ym mharagraff 20 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

I. Archwilio Cymru i lunio dadansoddiad o'r lefelau a'r costau staffio a gyllidebwyd sy'n ffurfio eu ffi archwilio ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Medi 2020.

II. Nodi’r adroddiad;

## 18 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Rhoddodd Samantha Clements (SAC) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gynnydd Gweithgarwch ac Adroddiad SAC.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y newidiadau oherwydd Covid-19. Nodwyd bod adroddiadau Cynaliadwyedd Ariannol ac Ailgylchu’r adran Rheoli Gwastraff eisoes wedi’u cyhoeddi. Roedd yr adroddiad ar y pwysau cyllidebol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i dynnu'n ôl oherwydd y pwysau cynyddol yn sgil Covid-19, ond byddai'n cael ei ailystyried fel rhan o'r gwaith sicrwydd ac asesu risg yn yr hydref.

Nodwyd y byddai adroddiad Gwella Blynyddol 2019-20, a oedd yn gasgliad o ganfyddiadau allweddol, yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Ar gyfer 2020-2021, roedd y tair eitem gyntaf yn ymwneud â Deddf Mesur Llywodraeth Leol a thystysgrifau oedd y 2 gyntaf; cyhoeddwyd tystysgrif y Cynllun Gwella ym mis Mai; mae'r Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref; bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol sy'n ymwneud â'r flwyddyn nesaf yn digwydd ymhen tua blwyddyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y tri phrif ddarn o waith a oedd yn rhan o'r Cynllun Sicrwydd ac Asesu Risg, a oedd yn canolbwyntio ar Gynllunio Adfer, Cynaliadwyedd Ariannol a Moderneiddio'r Gweithlu yn sgil y pandemig.

Y newid olaf i'r cynllun ar gyfer 2020-21 oedd prosiect dysgu Covid-19 a amlinellwyd i'r Aelodau. Byddai'r prosiect hwn yn cael gwybodaeth gan lawer o ffynonellau, yn defnyddio'r adnodd Sense Maker, yn nodi arferion nodedig ac yn rhannu gwersi dysgu. Byddai dolenni’n cael eu rhoi i’r Aelodau.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

## 19 : CAMAU ETO I’W CYFLAWNI

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr argymhellion Rheoli Risg Arfordirol a'r dull a ddefnyddir gan y Gyfarwyddiaeth. Roedd yr Aelodau o'r farn y gellir ei chau am y tro o ran rhaglennu gwaith ond gan fod y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y Gofrestr Risgiau’n chwarterol, gallant ail-ymgysylltu ac ail-weithio maes o law os bydd angen.

PENDERFYNWYD:

1. Diweddariad ar reoli risg yn y dyfodol i roi mwy o wybodaeth am weithredu ymarferion rheoli risg yn y cyd-destun presennol.

20 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Amlinellwyd y rhaglen waith i'r Aelodau. Oherwydd y pandemig presennol, nodwyd nad oedd llawer o adnoddau ar gael i weithredu fel busnes fel arfer ac yr ymdrinnir â rhai materion y tu allan i'r Pwyllgor; roedd angen Sicrwydd Uwch Swyddogion ar hyn.

PENDERFYNWYD: nodi'r rhaglen waith.

21 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 8 MEDI 2020

The meeting terminated at 4.10 pm